Rwy'n derbyn cymorth mewn sawl ffordd: gan y gynulleidfa, y clerigwyr a gan y ffydd ei hun. "Cael ffydd y bydd popeth yn iawn yn y pendraw, rhywsut," myfyriodd Sue.

Pan ofynnwyd iddi beth mae bod yn Warden Eglwys yn ei olygu iddi'n bersonol, mae hi'n oedi. "Dydw i ddim yn meddwl amdano ryw lawer," dywedodd. "Ond mae'n bwysig imi fy mod i'n defnyddio fy sgiliau i helpu eraill lle bynnag a sut bynnag y galla i."

Neges syml a chalonogol sydd ganddi i'r darllenwyr: "Rydym ni i gyd yn cyflawni hyd eithaf ein gallu. Ond gorau po fwyaf o bobl sy'n helpu ac yn cymryd rhan – er mwyn sicrhau bod pethau'n haws ac yn fwy hylaw i bawb."

---

## Eglwys Sant Gwyddelan

**Dyddiadau Gwasanaethau a Digwyddiadau . . .**

Dydd Sul **Mawrth 1**– am 09:30 **Sant Gwyddelan** – Cymun
Dydd Sul **Mawrth 15** – am 09:30 **Sant Gwyddelan** – Cymun
Sul y Pasg **Ebrill 5** – am 09:30 **Sant Gwyddelan** – Cymun

Manylion cyswllt **. . .**
Ffon: 01690 710313 neu stuartelliott@cinw.org.uk
Rhif Cofrestru Elusen: 1181120
Facebook: Bro Gwydyr ac St. Gwyddelan's

Ardal Weinidogaeth
**Bro Gwydyr**
Ministry Area

## CLWB DYDD LLUN

Bydd Clwb dydd Llun Dolwyddelan yn cwrdd yn y Pafiliwn ar drydydd dydd Llun pob mis yn ystod y rhan fwyaf o fisoedd. Bydd ein cyfarfodydd yn cychwyn am 2 ac yn dod i ben pan mae'n gweddu inni. Bydd cyfarfodydd y chwarter nesaf ar . . .

**Mawrth 16 – Ebrill 20 – Mai 18**

Mewn rhai cyfarfodydd byddwn yn difyrru ein hunain gyda chwis neu sgwrs – ac mewn ambell i gyfarfod arall byddwn yn croesawu siaradwr gwadd. Rydym wedi mwynhau trafodaethau am amryw o wahanol bynciau yn y gorffennol. Yn ein cyfarfod ym mis Mawrth bydd gennym sgwrs ac arddangosiad ar Frodwaith 'Stump'.

Wrth gwrs bydd paned, bisgedi a chyfle i sgwrsio a chwerthin fel arfer. At hyn, rydym yn trefnu taith flynyddol, ac wedi mwynhau taith gwch o amgylch Ynys Seiriol, wedi ymweld ag Amgueddfa'r 1950au yn Ninbych ac wedi mwynhau taith o amgylch Ynys Môn ac ati.

Mae croeso mawr i aelodau newydd bob amser.

Yn olaf – unwaith eto, bydd colled enfawr ar ôl Eurwyn Roberts sydd wedi bod yn siaradwr gwadd sawl gwaith ac a fu'n gyfaill da iawn i'r Clwb dydd Llun.

John Weedon